**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MB/019/13

David Melding AC
Cadeirydd - Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Chwefror 2013

Annwyl David,

**CLA200 – Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2012 a gweithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Ionawr ar ran y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynglŷn â'r amserlen ar gyfer creu safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.

Heddiw, rwyf wedi cyflwyno Datganiad Ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad sy'n esbonio fy mhenderfyniad ynglŷn â chynigion Comisiynydd y Gymraeg ynghylch safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r Datganiad yn esbonio fy mod wedi hysbysu Comisiynydd y Gymraeg nad wyf yn gallu cefnogi'r safonau na'r fethodoleg a gyflwynwyd ganddi yn ei hadroddiad. Rwyf wedi dod i'r penderfyniad hwn am nifer o resymau, fel yr wyf wedi esbonio yn y Datganiad Ysgrifenedig ac yn fy llythyr at y Comisiynydd, a gyhoeddwyd gyda'r Datganiad Ysgrifenedig.

Rwy'n bwriadu datblygu cyfres o safonau, yn seiliedig ar ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg, a fydd yn bodloni'r nodau polisi a adlewyrchir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r ymrwymiadau a wnaed i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn cyflawni hawliau ieithyddol ar gyfer dinasyddion. Byddaf yn cadw mewn cysylltiad agos â'r Comisiynydd wrth wneud hyn.

Mae'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn datblygu'r safonau yn cynnwys:

- datblygu cyfres ddiwygiedig o safonau ar gyfer ymgynghori;
- cynnal ymgynghoriad cynhwysfawr gyda'r cyhoedd a'r sefydliadau hynny yr effeithir arnynt gan y safonau;
- ar ôl ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, paratoi rheoliadau ar gyfer gwneud y safonau, ynghyd â rheoliadau fydd yn gwneud y safonau hynny'n benodol gymwys i bersonau, i'w cymeradwyo gan y Cynulliad;
- paratoi asesiad effaith rheoleiddiol i'w gyflwyno i'r Cynulliad ynghyd â'r rheoliadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Rwy'n amcangyfrif y bydd modd gwneud y rheoliadau i wneud y safonau, ynghyd â'r rheoliadau i wneud y safonau'n benodol gymwys i bersonau, erbyn diwedd 2014.

Yn gywir,

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills